# NODYN BYWGRAFFIADOL AR ANDREW WILSON-DICKSON

- Ganwyd Andrew Wilson-Dickson yn Llundain yn 1946 ac mae bellach yn byw ac yn gweithio yng Nghaerdydd. Pan yn blentyn, dechreuodd ddysgu'r piano yn saith oed a dechreuodd gyfansoddi pan roedd yn tua un ar bymtheg oed.

- Ar ôl gadael yr ysgol, aeth Andrew ymlaen i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt ac yna aeth i Brifysgol Caerefrog lle roedd yn un o'r myfyrwyr cyntaf i astudio am D Phil mewn cyfansoddi, gan astudio gyda'r cyfansoddwyr David Blake, Wilfred Mellers a Richard Orton.

- Mae Andrew wedi addysgu'n helaeth drwy gydol ei fywyd, ym Mhrifysgol Caerlŷr o 1971 ac yna, o 1984, yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae'n gweithio fel pianydd, harpsicordydd, organydd ac arweinydd. Mae hefyd yn arbenigo mewn cerddoriaeth gynnar ac ef oedd sylfaenydd Cerddoriaeth Gynnar Cymru/Early Music Wales. Mae hefyd yn ysgrifennu ar gerddoriaeth ac ef yw awdur 'The Story of Christian Music'; mae wedi cyfansoddi corff helaeth o waith i'w ddefnyddio mewn gwasanaethau eglwysig.

- Mae Andrew wedi cyfansoddi amrywiaeth eang o weithiau gan gwmpasu'r holl genres yn amrywio o opera i gerddoriaeth allweddellau a siambr. Mae wedi mynd ati'n frwdfrydig i ddefnyddio amrywiaeth enfawr o ddylanwadau o gerddoriaeth cynnar, i'r rhamantwyr Seisnig, fel Arnold Bax, i amrywiaeth eang o fodernwyr.

- Wrth sôn am ei weithgareddau presennol, dywed: "Ers ymddeol bron yn llwyr o addysgu, rwyf wedi cael cyfle yn sydyn i gyfansoddi a chwarae gyda dwyster nad wyf wedi'i brofi ers dyddiau prifysgol. Ar hyn o bryd, rwyf ychydig yn fwy gofalus wrth roi fy syniadau ar bapur nag yr oeddwn bryd hynny, ond rwyf wedi cael digon o wahoddiadau i wneud hynny, ac rwyf yn ddiolchgar iawn am hynny". (Cyfieithiad)

### Nodiadau Cefndir *ar tango passacaglia*

Cafodd *tango passacaglia* ei gyfansoddi'n wreiddiol fel darn i fand tango yn Llundain, ond mae hefyd yn bodoli yn y fersiwn rydym yn ei drafod yma fel darn i ffliwt a phiano. Cafodd ei gyfansoddi yn 2002 a chafodd y fersiwn presennol ei wneud yn 2006.

Un symudiad yw'r gwaith, sy'n para tua 6-7 munud

## CYSYNIAD

Teyrnged i'r cyfansoddwr tango o'r Ariannin, Astor Piazzolla (1921-92) yw *tango passacaglia*. Yn ôl y cyfansoddwr, "mae'n anrhydeddu dyled Piazolla i Bach drwy ymgorffori thema'r Passacaglia a'r Ffiwg yn C leiaf i'r organ, BWV 582, o'r dechrau i'r diwedd". Mae'r thema yn cynnwys grwndfas sy'n gwau ei ffordd drwy'r darn cyfan ac sy'n ymddangos "yn y lleoedd mwyaf annisgwyl". Mae defnydd traddodiadol yn cael ei wneud o gyweiredd, ond mae'n symud rhwng arddull "y ddeunawfed ganrif i raddau (o barch tuag at Bach) i'r cyfnod Rhamantaidd hwyr drwy gyfeiriadau bwriadol at gerddoriaeth Brydeinig o ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn enwedig Arnold Bax" (1883-1953).

- Beth yw passacaglia a pha ran y mae grwndfas yn ei chwarae ynddo?
- Beth yw nodweddion tango? Pa arwydd amser y byddech yn disgwyl i'r gwaith fod ynddo a pha fath o rythmau y gallech ddisgwyl eu clywed ynddo?

cbac wjec

## DADANSODDI

Mae adrannau gwahanol y *tango passacaglia* i'w gweld isod:

| | |
|---|---|
| **1 - 41** | ADRAN 1 (CROSIET= 120) |
| **42 - 66** | ADRAN 2 (HYBLYG, ARAFACH, BREUDDWYDIOL) |
| **67 - 99** | ADRAN3 (TEMPO 1) |
| **100 - 132** | AILADRODD ADRAN 1 (BARIAU 8-33) |
| **133 - 140** | CODA |

cbac wjec

## CRYNODEB MANWL O'R ADEILEDD

### Adran 1 (Barrau 1-41). Crosiet = 120

Mae Adran 1 yn cyflwyno thema grwndfas Bach gyda chwe amrywiad byr i ddilyn, ac mae'r thema yn symud drwy wahanol rannau'r gwead ym mhob un.

<table>
<tr>
<td>1 – 6</td>
<td>Mae thema grwndfas Bach yn cael ei chyflwyno gan law chwith y piano yng nghywair C leiaf. Mae thema wreiddiol Bach mewn ¾, ond mae'n cael ei chyflwyno yma mewn 4/4 gyda'r un gwerthoedd nodau (5½ bar gyda'r C olaf yn gorgyffwrdd â'r amrywiad nesaf). Gweler Enghraifft 1 am thema wreiddiol Bach a chyflwyniad Andrew Wilson-Dickson ohoni.<br><br>Enghraifft 1a<br><br>Enghraifft 1b<br></td>
</tr>
</table>

**7 - 12**

Mae’r thema yn symud nawr i law dde’r piano (fel rhan o ganon dwyran ar y seithfed) sy’n cael ei chlywed yn erbyn cyfalaw â’r llaw chwith (gweler Enghraifft 2),




sy’n esgyn yn gromatig fesul cam o C i B (gan hepgor yr E naturiol). Mae’r ffliwt yn chwarae tri datganiad o syniad newydd, y mae pob un ohonynt yn fwy cymhleth ac yn hwy na’r un blaenorol (mae’r cyntaf yn para 4 curiad, mae’r ail yn para 5½ ac mae’r un olaf yn para 10). Nodwch mai’r nodau C - E feddalnod - G sydd fwyaf amlwg. Mae’r cywair yn dal i fod yn C leiaf ar y cyfan.

**13 - 18**

Mae’r thema yn ymddangos yma ar ffurf addurnedig yn rhan y ffliwt (yn bennaf ar nodau hir, triliau neu nodau acennog - gweler Enghraifft 3)




sydd i’w chlywed yn erbyn graddfa esgynedig â’r llaw chwith (C leiaf harmonig gyda phedwerydd llon, gan orffen ar D feddalnod). Mae cyfalaw flaenorol y llaw chwith i’w chlywed nawr yn disgyn yn rhannol yn rhan uchaf llaw dde’r piano (barrau 14-15). Mae rhythm harmoni’r llaw dde wedi’i drefnu mewn grwpiau rhythmig gwahanol o 3+3+2 cwafer.

| | |
|---|---|
| **19 - 23** | Mae'r thema yn ymddangos ar ffurf addurnedig yn rhan y ffliwt, ac mae pob un o'i nodau yn acennog. Mae'r ffliwt yn chwarae syniad rhythmig tri churiad sy'n cael ei ailadrodd, sy'n seiliedig ar ran y ffliwt ym mar 6 (gweler Enghraifft 4).   Mae'r raddfa C leiaf (symud mewn crosietau yn y llaw chwith) yn disgyn nawr (o B feddalnod). Mae'r cordiau arddull Bach yn y llaw dde (dechrau ar yr ail gwafer ym mar 19) wedi'u trefnu drwyddi draw ar ffurf crosietau dot. |
| **24 - 28** | Mae'r thema yn ymddangos yn llaw dde'r piano, gan orgyffwrdd â'r amrywiad blaenorol, gan ddechrau ym mar 23. Mae'r rhan fwyaf o nodau'r thema yn acennog (hyd at far 26). Mae'r raddfa fas ddisgynedig yn parhau o'r amrywiad blaenorol. |
| **29 - 33** | Mae'r thema yn ymddangos yn y ffliwt fel cyfres o ffigyrau 2 nodyn (nodyn cryndafod a ddilynir gan nodyn acennog uwch; mae'r grwpiau hanner cwafer yn addurniadol). Mae gwead y piano yn dyblu'r ffigurau 2 nodyn, ond mae ail nodyn y grŵp yn dilyn ar ôl pellter o gwafer. |

| | |
|---|---|
| **34 - 41** | Mae'r thema yn ymddangos yn isel yn rhan y ffliwt yn ei gwerthoedd nodau gwreiddiol (gyda dau nodyn olaf y piano ar ddechrau bar 39). Mae'r piano yn chwarae cordiau cyffredin sy'n disgyn yn gromatig, cordiau seithfed a chywasg mewn hanner cwaferi, gan adleisio'r gyfalaw ym mariau 7-12 (DS mae'r A meddalnod ar goll ym mar 36, ond mae'n cael ei hychwanegu ar ddiwedd bar 37). Mae rhan flodeuog esgynedig yn y ffliwt hefyd yn symud drwy'r 12 nodyn yn y raddfa gromatig. |

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ffordd y mae thema'r grwndfas yn cael ei defnyddio yma ac yn passacaglia gwreiddiol Bach?
- A yw thema'r grwndfas yn cael ei hailadrodd yn union yn yr un ffordd ag yr ymddangosodd yn gyntaf bob tro?
- Beth yw prif nodwedd y gyfalaw sy'n cael ei chwarae â llaw chwith y piano rhwng barrau 7 a 12? Ym mhle arall y mae'r syniad hwn yn ymddangos yn yr adran agoriadol?

**Adran 2 (Barrau 42-66). Hyblyg, Arafach, Breuddwydiol**

Adran arafach sy'n lled fyrfyfyr, ac sydd wedi'i threfnu'n llai caeth na'r 41 bar agoriadol. Mae dau amrywiad. Er bod trawiau gwreiddiol thema'r grwndfas yn cael eu cadw, mae'r gerddoriaeth yn symud drwy nifer o gyweiriau awgrymedig heb setlo byth ar un.

| | |
|---|---|
| **42 - 58** | Rhan hir lle mae'r thema yn cael ei hymestyn drwy gydol yr adran. Mae pedwar nodyn cyntaf y thema i'w clywed yn rhan y ffliwt (barrau 42-45). Mae'r G wedyn yn trosglwyddo i'r piano (47), A meddalnod (G# enharmonig yn 48), F (50), G (51 piano a ffliwt), D (ffliwt 51), E feddalnod - B (D# enharmonig yn 53 yn narn y piano, ac mae'r ddau i'w clywed ar yr un pryd yng nghyd-destun cord G# leiaf), F ac C (55 fel cord F fwyaf). Mae'r arwyneb addurnedig iawn yn cael ei ategu gan rythm harmonig araf iawn. Mae'r ffliwt yn cyfeirio'n fyr at y gwaith cerddorfaol *Summer Music* (1917-20) gan Syr Arnold Blax ym marrau 55-58. |
| **59 - 66** | Mae cyflwyniad melodig o'r thema gan y ffliwt yn cael ei glywed yn erbyn cyfres o gordiau seithfed sy'n cymylu'r cyweiredd. |

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y ffordd y mae'r thema yn cael ei defnyddio yn Adran 1 a rhan gyntaf Adran 2 (barrau 42-58)?
- A yw'n bosibl nodi un cywair gwreiddiol ar gyfer yr adran hon yn ei chyfanrwydd?
- A yw'r thema yn cael ei thrawsnodi rywbryd yn ystod Adran 2?

cbac wjec

**Adran 3 (Barrau 67-99). Tempo 1**

Adran ganol, sy'n debycach i arddull y tango nag unrhyw ran arall o'r gwaith.

| | |
|---|---|
| **67-72** | Mae'r thema yn cael ei chyflwyno gyda'i gwerthoedd nodau gwreiddiol yn rhan y ffliwt, dros ddarn piano rhythmig, sydd wedi'i seilio yn bennaf ar gywair Ab fwyaf. |
| **72-83** | Amrywiad sy'n perthyn i ddwy adran: mae'r cyntaf (barrau 72-78) yn cynnwys y ffliwt yn ailadrodd y thema o farrau 67-72, gan ddechrau curiad ynghynt (h.y. ar yr ail guriad, yn hytrach na'r trydydd curiad fel ym mar 67). Mae darn y piano yn seiliedig ar yr adran flaenorol. O farrau 78-81, mae'r thema i'w chlywed mewn wythfedau yn llaw dde'r piano yn erbyn gwrthdestun disgynedig yn rhan y ffliwt. |
| **84-95** | Mae'r thema wedi'i hymgorffori yng nghanol gwead y piano (o far 85-89) gan gadw'r gwerthoedd nodau gwreiddiol. Mae thema newydd wedi'i hysbrydoli gan y tango, nad yw'n gysylltiedig â deunydd blaenorol, i'w chlywed yn rhannau'r ffliwt (barrau 84-87) a'r piano (barrau 92-95). Am gyfnod byr o bum bar (91-95) mae'r thema yn diflannu o'r gwead. |

cbac wjec

| | |
|---|---|
| **96 - 99** | Dychwelyd i ddeunydd barrau 79-81 gyda'r thema yn llaw dde'r piano. |

- Pa mor debyg yw'r defnydd o'r thema ym marrau 67-81 i'r gwreiddiol sydd i'w glywed ar ddechrau'r darn?
- A yw'r thema yn diflannu o'r gwead unrhyw bryd yn Adran 3 ac os felly, ble?

cbac wjec

**Adran 4 (Barrau 100-132). Tempo 1, Crosiet = 120**

Yn ei hanfod, mae Adran 4 yn dychwelyd i ddeunydd Adran 1 gan ailadrodd barrau 8-33 yn gyfan gwbl (barrau 107-132).

| | |
|---|---|
| **100 - 106** | Mae'r thema yn dychwelyd am y tro cyntaf i fas y piano, fel y clywyd yn wreiddiol ym marrau 1-6, ond nawr mae'r llaw dde yn chwarae rhan ychwanegol. |
| **107 - 132** | Ailadrodd barrau 8-33 yn union fel y maent. |

**Adran 5 (Barrau 133-140). Coda**

| | |
|---|---|
| **133 - 137** | Ailadrodd darn y piano o farrau 100-104 gyda darn newydd i'r ffliwt. |
| **138 - 140** | Darn i'r ffliwt yn esgyn mewn trydyddau mwyaf a lleiaf sy'n cwmpasu 10 nodyn pob cromatig. Diweddeb yn ailsefydlu C leiaf. |

## CYWEIREDD

Mae *tango passacaglia* yn dilyn egwyddor wreiddiol y passacaglia, sef cadw'r grwndfas ar yr un traw ag y mae'n ymddangos gyntaf (C leiaf). Fodd bynnag, er bod y thema wedi'i chyfyngu i'r bas yn bennaf yng ngwaith gwreiddiol Bach, anaml y mae'n ymddangos yn y bas yn y gwaith hwn ar ôl y datganiad agoriadol cychwynnol (mae'n dychwelyd i'r bas ym marrau 100-05 a 133-37) ac yn symud rhwng y lleisiau mewnol a'r llinell uchaf. Mae hyn yn golygu nad yw cyweiredd y darn wedi'i gyfyngu i un cywair, fel y byddai'n digwydd fel arfer mewn passacaglia neu amrywiadau traddodiadol. Mae'n golygu hefyd y gall y cyweiredd o gwmpas y grwndfas gwreiddiol gael ei newid neu ddefnyddio harmonïau amrywiol. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o hyn:

- Mae'r adran gyntaf (hyd at far 41) wedi'i gwreiddio yng nghywair C leiaf, ond mae'r harmoni yn awgrymau cyweiriau eraill yn aml, heb fyth sefydlu cywair arall yn bendant. Er enghraifft, ym marrau 29-33, mae cyfres o gordiau nad oes ganddynt gysylltiad swyddogaethol â'i gilydd, yn cymylu'r cyweiredd sylfaenol.
- Mor gynnar â barrau 7-12, mae gwrthdestun disgynedig cromatig i'r thema (ym mas y piano) yn darparu dewis amgen i'r grwndfas. Mae hwn yn ailymddangos mewn sawl ffurf, fel y disgyniad harmonig cromatig ym marrau 35-39.
- Y rhan fwyaf eithafol o ran symud o gyweiredd y thema wreiddiol yw barrau 42-58, lle mae'r thema yn cael ei hymestyn dros y rhan fwyaf o'r adran sy'n symud drwy gyfres gromatig iawn o ddilyniannau harmonig.
- Ym marrau 59-64 mae'r thema yn trawsnewid yn y ffliwt, wrth i'r cyweiredd C leiaf gael ei harmoneiddio drwy gyfres o gordiau â gwyriadau octatonig.

> - Rhowch ddwy enghraifft o sut mae cyweiredd C leiaf y thema yn cael ei gymylu neu'i danseilio?
> - Beth yw ystyr y gair octatonig?

## GWEAD A SONIAREDD

Yn *passacaglia tango* mae rhannau'r ffliwt a'r piano yr un mor bwysig â'i gilydd, gyda'r naill neu'r llall yn rhagori weithiau. Mae'r gweadau a'r soniaredd yn draddodiadol ar y cyfan, ond maent yn cael eu defnyddio yn gyson i wahaniaethu rhwng yr adrannau ac amlygu'r adeiledd.

- Mae'r adran gyntaf (barrau 1-41) yn symud yn raddol, fesul amrywiad, ymhellach o fyd Bach i fyd sy'n seiliedig ar weadau o gyfnod ôl-Debussy, gan fabwysiadu gwead hollol wahanol ar gyfer yr ail adran (barrau 42-65)
- Yn rhan gyntaf yr ail adran (barrau 42-58) mae cryn dipyn o ran y piano yn cynnwys cordiau dal, sy'n aml yn cael eu chwarae ar ffurf arpeggio, sy'n rhoi dyfnder a dwysedd iddynt (ymestyn dros 3-4 wythfed). Mae darn y ffliwt yn yr adran hon yn flodeuog ac yn dra gwahanol i'r holl adrannau eraill, ond mae'n cael ei ategu gan ddarnau tebyg yn llaw dde'r piano.

- Pa adran benodol o'r gwaith sy'n hollol wahanol i'r lleill o ran ei defnydd o wead a soniaredd?
- Sut mae'r cyfansoddwr yn rhoi dyfnder a dwysedd i'r cordiau piano sy'n cael eu dal am gyfnod hir yn rhan gyntaf Adran 2?

## IAITH HARMONIG

Mae'r cyfansoddwr yn disgrifio'r iaith harmonig yn *passacaglia tango* fel "traddodiadol (gyda llinell fas wedi'i gwreiddio yn y ddeunawfed ganrif a diweddebau clir) ond gydag arwyneb addurnedig iawn, sy'n arwydd bwriadol o barch at rai cyfansoddwyr modern o ddechrau'r ugeinfed ganrif". Mae'r gerddoriaeth yn mynd drwy sawl gwahanol fath o harmoni, gan adlewyrchu'r newidiadau hyn mewn arddull, ac mae rhai enghreifftiau i'w gweld isod:

- Nid oes unrhyw ran o'r darn yn efelychu harmoni swyddogaethol yn union fel y byddai Bach wedi'i ddefnyddio ond, yn yr adran gyntaf, mae tebygrwydd i'w weld rhwng y defnydd o harmoni a welir yn nhrawsgrifiadau Liszt o waith Bach ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg neu arddull neo-Bach Franck (er gydag anghyseinedd na fyddai i'w glywed yng ngherddoriaeth y cyfansoddwyr hyn, fel llaw dde'r piano ym marrau 20, 22-23).
- Mae darn rhwng barrau 35-38 yn symud i fyd harmonig yr adran nesaf drwy ffigur piano cromatig sy'n debyg i gerddoriaeth Rachmaninov.
- Yr ail adran (bar 42-66) yw'r rhan fwyaf cromatig a mwyaf cymhleth o safbwynt harmonig yn y darn cyfan gyda chyfeiriadau bwriadol, yng ngeiriau'r cyfansoddwr, "at gerddoriaeth Brydeinig o ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn enwedig Arnold Bax". Mae'n cynnwys rhythm harmonig araf iawn sy'n seiliedig ar gyfres o seithfedau newidiedig diadfer ac appoggiatura sy'n atal unrhyw adferiad i gywair sefydlog nes cyrraedd yr adran nesaf (o far 66).
- Mae'r drydedd adran yn symud yn harmonig tuag at idiom y tango ac Astor Piazzolla. Mae cordiau 6/4 cyfochrog yn cael eu defnyddio yn y llaw dde (barrau 67-69 a 75) dros bedal tonydd (Ab fwyaf yw'r cywair yma).

- Enwch dri o'r cyfansoddwyr gwahanol y mae eu harddulliau yn cael eu hefelychu yn *tango passacaglia*.
- Mae'r ail adran (barrau 42-66) yn gwneud llawer o ddefnydd o anghytgordiau; ydy'r rhain yn cael eu hadfer yn y ffordd gonfensiynol ac os nad ydynt, sut maen nhw'n cael eu defnyddio?
- A oes unrhyw ddyfyniadau uniongyrchol gan gyfansoddwyr eraill yn Adran 2? Os felly, gan bwy ac ym mhle maen nhw'n ymddangos?

## TEMPO, MESUR A RHYTHM

### TEMPO

Mae un prif dempo ar gyfer *tango passacaglia* (crosiet = 120) sy'n cyferbynnu â thempo "hyblyg, arafach, breuddwydiol" ar gyfer Adran 2.

### MESUR

Mae'r cyfansoddwr yn ysgrifennu "Mae'r darn hwn (yn wahanol i ddarnau eraill o'm heiddo) yn gymharol ansoffistigedig yn y maes hwn, heblaw am y tyndra cynhenid rhwng passacaglia mewn 3/4 yn gwasanaethu tango mewn 4/4". Y mesur gwreiddiol ar gyfer passacaglia Bach yw 3/4, ond mae'r darn hwn i'w glywed o'r cychwyn mewn mesur 4/4, sy'n rhoi cymeriad metrig hollol wahanol i'r grwndfas. Yn wahanol i thema wreiddiol Bach, mae nawr yn dod yn afreolaidd (gweler Enghraifft 1)



ac mae'r anacrwsis gwreiddiol yn diflannu'n gyfan gwbl drwy gydol y darn. Fodd bynnag, mae llawer o addasiadau eraill wedi'u gwneud i drefn fetrig y grwndfas drwy gydol y darn:

- Ar ddechrau barrau 7-12, mae'r acenion metrig yn newid drwy ddechrau gydag un bar o 3/4.
- Ym marrau 13-18, mae cymeriad y thema yn newid yn llwyr pan gaiff ei thrawsnewid yn thema â gwerthoedd nodau newydd a nodau addurnol atodol.
- Rhwng barrau 18-23, mae'r thema wedi'i gwreiddio mewn llinell redeg sy'n cynnwys hanner cwaferi yn bennaf ac mae'n nodedig am ei nodau acennog. Yma, mae tyndra metrig newydd yn ymddangos, wrth i batrwm rhythmig 3/4 gael ei ymestyn dros farrau

4/4 gyda'r acenion yn syrthio ar ail a thrydydd curiad y patrwm. Mae patrwm tebyg lle mae mesur3/4 yn cael ei ymestyn dros fesur 4/4 i'w weld ym marrau 29-33 hefyd.

- Ym mar 66, mae'r thema 3/4 yn cael ei defnyddio unwaith eto mewn mesur 4/4 ond, y tro hwn, mae'n dechrau ar ail guriad y bar, tra'i fod yn dechrau ar y trydydd curiad ym mar 73.

Fel arfer, gall defnyddio grwndfas (neu, yn wir, ffurf amrywiad traddodiadol) osod adeiledd cymalog caeth ar ddarn, fel sydd i'w weld yng ngwaith gwreiddiol Bach sydd, i ddechrau o leiaf, yn cynnwys cyfres o frawddegau 8 bar. Fodd bynnag, yn y darn hwn, mae'r amrywiadau gwahanol wedi'u nodweddu gan hyd brawddegau anghymesur: 6½ (barrau 1-6), 5½ (barrau 7-12 yn cymysgu barrau 4/4 a 3/4), 6 (barrau 13-18), 5 (barrau 19-23), 4½ (barrau 24-28), 5 (barrau 29-33) ac ati.

- Beth yw'r gwahaniaeth metrig rhwng y ffordd y mae Bach yn cyflwyno'r thema a'r ffordd mae'r thema yn cael ei chyflwyno ym mariau agoriadol *passacaglia tango*?
- Er bod trawiau gwreiddiol thema Bach yn cael eu dilyn bron bob amser, gall y rhythm newid yn aml. Rhowch ddwy enghraifft o hyn.

## DYNAMEG

Defnyddir dynameg yn aml i siapio adrannau a chynllunio uchafbwyntiau. Yn *passacaglia tango*, cânt eu defnyddio i amlygu gwrthgyferbyniadau rhwng adrannau a thynnu sylw at rannau dramatig y gwaith. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Ar ôl datganiad *p* cychwynnol y grwndfas, mae'r rhan fwyaf o weddill Adran 1 yn uchel ac yn egnïol ac mae hyn yn cyferbynnu'n drawiadol â chymeriad rhamantaidd meddal Adran 2;
- Mae'r adran ganol yn defnyddio dynameg drwyddi draw i greu gwrthgyferbyniad rhwng ymosodiadau uchel a meddal, ac mae'r adran yn symud yn raddol tuag at y darn uchaf ar y diwedd (barrau 92-93);
- Mae'r darn yn dychwelyd i ddeunydd Adran 1 ac mae'r grwndfas yn dychwelyd i law chwith y piano (am y tro cyntaf ers y darn agoriadol) drwy ddychwelyd i'r datganiad *p* a welwyd ar y dechrau.

## ADNODDAU

**CD:** Catherine Handley / Andrew Wilson-Dickson. HAL 004

**Sgôr:** Fieldgate Music. 15762c.39.ekmpowershop.net

**Gwefan:** www.wilson-dickson.co.uk

Hoffai'r awdur ddiolch i Andrew Wilson-Dickson am ddarllen drwy'r dadansoddiad hwn a chynnig awgrymiadau a newidiadau i'r sgript wreiddiol.